Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Pen-y-bont Court**

**Cartref Nyrsio Pen-y-bont Court**
**Heol Ewenni Ewenni**
Pen-y-bont ar Ogwr
**CF35 5AW**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 9 Mawrth 2022

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Pen-y-bont Court

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Pen-Y-bont Court Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 43 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 21/01/2020 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Pen-y-bont Court yn derbyn safon dda o ofal gan nyrsys a gweithwyr gofal. Maent yn cael eu cefnogi gan dîm o weithwyr gofal a nyrsys ymroddedig sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r bobl yn cael eu trin ag urddas a charedigrwydd. Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli sefydledig ac ymroddedig. Mae'r broses cyn-derbyn yn asesu ac yn ystyried eu hanghenion gofal a chymorth, eu cydnawsedd ac os yw'r gwasanaeth yn gallu diwallu eu hanghenion. Mae gan bobl gynlluniau personol cywir a chyfredol sy'n cynnwys manylion am eu hanghenion gofal unigol. Mae'r profiadau ar adegau bwyta yn gadarnhaol. Gall pobl ddefnyddio'u hamser mewn ffordd gadarnhaol a chadw cysylltiad â'r teulu. Cwblheir gwiriadau recriwtio diogel ac mae'r staff gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu, yn cael mynediad at hyfforddiant ac yn derbyn goruchwyliaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau'n cynnal diogelwch a llesiant pobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli'n ymroddedig i ddatblygiad a gwelliant parhaus y gwasanaeth. Mae gan yr unigolyn cyfrifol drosolwg o'r gwasanaeth ac mae archwiliadau monitro ansawdd yn cael eu cwblhau.

## Llesiant

Mae gan bobl lais ac maent yn cael eu trin ag urddas a pharch. Caiff anghenion deietegol unigol eu diwallu ac mae prydau bwyd yn iach ac yn faethlon. Mae cynlluniau gofal personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl, ac yn hawdd eu dilyn. Mae gwybodaeth am sut mae anghenion corfforol, emosiynol, iechyd meddwl a llesiant yn cael eu diwallu wedi'i chynnwys yn eu ffeiliau gofal. Mae cyfarpar megis system gloch ar gael ac mae hyn yn galluogi pobl i gael y gofal y mae ei angen arnynt ar yr adeg gywir. Mae gan bobl fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol.

Mae gan y gwasanaeth fesurau ar waith i gadw pobl yn ddiogel. Mae'r cartref yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod. Dilynir protocolau rheoli heintiau gan gynnwys mesurau ar gyfer COVID-19. Mae staff gofal yn cael eu fetio, eu hyfforddi a'u cynorthwyo i wneud eu swyddi. Maent wedi derbyn hyfforddiant diogelu ac mae polisi diogelu ar waith i gyfeirio ato os oes angen. Mae digwyddiadau a damweiniau yn cael eu cofnodi, a gwneir cyfeiriadau priodol i weithwyr iechyd proffesiynol eraill er mwyn darparu gofal a chymorth holistig i bobl.

Mae pobl yn cael eu cefnogi i gynnal perthnasau. Mae gan y nyrsys a'r gweithwyr gofal gydberthnasau da â phobl ac yn gwybod sut i'w cefnogi'n dda. Mae'r gwasanaeth yn annog pobl i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd a ffrindiau, ac roedd perthnasau y siaradwyd â hwy yn canmol hyn. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau ac mae ganddynt bethau y maent yn edrych ymlaen atynt.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas, sy'n cefnogi ac yn hybu eu llesiant. Mae ystafelloedd yn cynnwys eitemau wedi'u personoli. Maent wedi'u dodrefnu'n addas ac mae ganddynt gyfleusterau, sy'n annog annibyniaeth wrth sicrhau diogelwch. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn rhydd rhag rhwystrau ac mae wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau pan fo angen ac mae asesiad risg tân ar waith. Mae profion larymau tân ac ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae gan bobl gynlluniau personol ar gyfer gadael yr adeilad.

## Gofal a  Chymorth

Mae’r bobl yn elwa ar safon dda o ofal a chymorth. Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynllunio gofal yn sicrhau bod pobl wrth wraidd y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Mae proses a dogfennau cyn-derbyn yn ystyried cydnawsedd unigolion, yr effaith bosib ar bobl eraill sy'n byw yn y cartref, ac os gall eu hanghenion gael eu diwallu. Gwnaethom archwilio ffeiliau gofal electronig pobl a gweld eu bod yn darparu gwybodaeth glir a chyfredol am anghenion yr unigolyn. Mae'r cynlluniau personol sydd ar waith yn cwmpasu meysydd fel gofal personol, deiet a maeth, cyfathrebu, ymddygiad a symudedd. Canfuom fod asesiadau risg manwl wedi’u cwblhau. Mae staff ac unigolion yn derbyn cymorth gan ddadansoddwr ymddygiad ac ymgynghorwyr codi a chario'r darparwr. Mae dewis o fwyd ar gael ac ar ddiwrnod ein hymweliad roedd y prydau yn edrych yn flasus. Mae pwysau pobl yn cael ei fonitro ac mae cymeriant hylif a bwyd yn cael ei gofnodi. Dywedodd rheolwr gofal wrthym “*Nid oes gennyf unrhyw bryderon ynghylch y gofal yn Pen-y-bont Court*”.

Mae’r bobl yn profi cynhesrwydd a charedigrwydd. Gwelsom nyrsys a gweithwyr gofal yn trin pobl fel unigolion. Maent yn hynod sylwgar ac yn ymateb i’r anghenion gwahanol sydd gan bobl gydag anogaeth a chefnogaeth ar y lefel briodol. Mae’r bobl yn edrych wedi ymlacio ac yn gyfforddus ym mhresenoldeb staff. Mae staff yn siarad mewn modd cyfeillgar, gofalgar a pharchus ac mae pobl yn ymateb yn gadarnhaol. Dywedodd perthnasau wrthym “*Mae'r gofal yn wych*”, “*Mae'n derbyn cariad, gofal a sylw, y gofal byddwn yn dymuno ei roi iddo gartref*” ac “*maen nhw’n wych*”. Gwnaethom siarad â phobl sy'n byw yn y cartref a dywedon nhw  “*Rwy'n hapus yma*”, “*mae'r staff yn bleserus iawn*” ac “ *alla i ddim gweld bai ynddynt"*.

Mae meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n dda yn y gwasanaeth. Mae systemau clir ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn ddiogel. Roedd cofnodion rhoi meddyginiaeth yn gywir ac wedi'u llofnodi'n briodol. Mae'r holl staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi'u hyfforddi ac mae uwch aelodau o staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd. Mae'r ystafell feddyginiaeth wedi'i threfnu'n dda ac wedi'i chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio. Mae gwiriadau tymheredd ystafell a thymheredd oergell dyddiol yn cael eu cwblhau a chynhelir archwiliadau meddyginiaeth yn rheolaidd. Mae'r nyrsys a’r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cynorthwyo yn dda ac yn gallu nodi unrhyw ddirywiad yn eu hiechyd a cheisio cymorth mewn modd amserol. Mae polisi meddyginiaeth ar waith sy'n cynnwys arweiniad ar roi meddyginiaeth ‘yn ôl yr angen’. Mae gweithwyr gofal yn monitro effeithiau rhoi meddyginiaeth yn ôl yr angen er mwyn penderfynu a yw'r feddyginiaeth yn cael yr effaith ddymunol.

Mae'r gwasanaeth yn cymryd yr holl gamau rhesymol i nodi ac atal y posibilrwydd o gamdriniaeth. Mae'r staff yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw pobl yn ddiogel a chawsom wybod ganddynt y byddent yn adrodd unrhyw bryderon. Maent yn ymwybodol

o'r weithdrefn datgelu camarfer a dywedon nhw eu bod yn teimlo’n hyderus am fynd at eu rheolwr pe bai angen. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu a bod polisi diogelu cyfredol ar waith i'r holl staff gael mynediad iddo a'i ddilyn.

## Yr Amgylchedd

Mae Pen-y-bont Court yn lân, yn fawr, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn gartrefol. Mae gan yr holl ystafelloedd gwely gyfleusterau ymolchi personol a gwelsom eu bod wedi'u personoli i ddewisiadau unigol. Maent yn cynnwys pethau personol a lluniau o anwyliaid. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunol yn fawr ac yn cynnwys y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer cefnogi pobl yn ôl y gofyn i sicrhau bod eu hurddas yn cael ei barchu. Mae'r cyfleusterau cegin a golchi dillad yn addas ar gyfer maint y cartref. Gwelsom fod nifer o fannau cymunol ar ddau lawr y gwasanaeth yn darparu digon o le i breswylwyr ymgysylltu â'i gilydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau, a chwrdd â pherthnasau a ffrindiau sy'n ymweld. Mae'r cartref wedi'i osod ar ddwy lefel sydd wedi'u rannu'n bedair ardal, sy'n ychwanegu at yr ymdeimlad cartrefol a' ymdeimlad o berthyn i bobl. Mae cynlluniau adnewyddu parhaus yn mynd rhagddynt; mae ystafell synhwyraidd yn cael ei datblygu ac mae sawl ystafell wely ar fin cael eu hailaddurno.

Mae'r bobl yn elwa ar ymrwymiad y gwasanaeth i sicrhau arferion diogel. Mae sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel. Gwnaethom edrych ar y ffeil cynnal a chadw yn y gwasanaeth a gweld y cynhelir archwiliadau cynnal a chadw priodol yn y cartref yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â gwiriadau amgylcheddol sy'n cynnwys gwiriadau ffenestr, cyfarpar codi a chario a goleuadau mewn argyfwng. . Mae gan bob unigolyn sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gadael yr adeilad sy'n benodol i'w hanghenion cymorth, ac mae staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal safonau hylendid a rheoli heintiau da. Mae pob aelod o staff yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac roedd cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r cartref yn ystod yr arolygiad. Mae ymwelwyr dan do'n gwneud profion llif unffordd COVID-19 cyn dod i'r cartref gofal neu wrth ei gyrraedd. Mae amserlenni glanhau dyddiol effeithiol ar waith ac mae holl rannau'r cartref yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Mae aelod o staff yn gwirio tymheredd corff ymwelwyr cyn eu caniatáu i ddod ymhellach i mewn i'r adeilad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus. Gwelsom ddogfennau'n ymwneud â phrosesau sicrhau ansawdd y gwasanaeth, sy’n cael eu cwblhau mewn modd amserol. Mae adroddiadau'r unigolyn cyfrifol yn cwmpasu amrywiaeth o faterion gweithredol ac yn nodi meysydd lle mae agen gwneud gwelliannau. Canfuom yn gyffredinol fod teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn rhoi adborth cadarnhaol am y gofal a ddarperir. Mae'r gwasanaeth yn hysbysu cyrff rheoleiddio ac asiantaethau statudol perthnasol yn briodol, pan fydd pryderon a digwyddiadau sylweddol a allai effeithio ar lesiant unigolion sy'n derbyn gofal. Mae archwiliadau a gwiriadau ansawdd ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddiwallu anghenion pobl. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau cwmni cadarn ar waith i'r staff eu dilyn. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisïau: derbyniadau, cwynion, rheoli heintiau, meddyginiaeth a diogelu, a chanfod eu bod yn gyfredol.

Mae gweledigaeth, gwerthoedd a diben y gwasanaeth yn glir ac wedi'u gweithredu'n weithredol. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth fanwl gywir am y trefniadau cyfredol sydd ar waith ynghylch proses llety, atgyfeirio a derbyn y gwasanaeth. Mae'r datganiad o ddiben hefyd yn cynnwys manylion am drefniadau goruchwyliaeth a threfniadau hyfforddi’r gwasanaeth ar gyfer staff gofal. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol amrywiol i bobl a'u cynrychiolwyr er mwyn iddynt ofyn cwestiynau a rhoi adborth.

Mae nifer briodol o staff gofal priodol a chymwysedig ar gael ac maent yn derbyn hyfforddiant a goruchwyliaeth rheolaidd. Mae'r rota staff yn dangos bod lefelau staffio'n ddigonol ar y cyfan a bod unigolion yn derbyn gofal a chymorth yn unol â'u hanghenion. Mae nifer o swyddi gwag ar gyfer staff gofal ar hyn o bryd; mae'r darparwr yn gwneud pob ymdrech i recriwtio. Mae'r cofnod hyfforddiant staff yn dangos bod gan staff fynediad i amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant craidd a dywedodd staff gofal wrthym eu bod yn hapus gydag ansawdd ac amlder yr hyfforddiant. Mae nyrsys a staff gofal yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd y maent yn ei dderbyn gan y tîm rheoli. Mae proses recriwtio ddiogel yn sicrhau bod gweithwyr gofal yn addas i weithio gydag oedolion sy’n agored i niwed. Mae'r adran adnoddau dynol yn cadarnhau bod y broses recriwtio staff yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol a bod gan y staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae staff gofal newydd yn derbyn cyfnod sefydlu yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru.